Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Mewnwelediad data
Hydref 2021

# Unigrwydd yng Nghymru yn ystod pandemig y Coronafeirws

Mae unigrwydd yn broblem eang, gydag arolygon yn awgrymu bod un o bob chwech o boblogaeth Cymru yn unig (Swyddfa Ystadegau Gwladol, Llywodraeth Cymru, 2020; Llywodraeth Cymru, Swyddfa Ystadegau Gwladol 2020a; 2020b). Mae unigrwydd yn cael effaith sylweddol ar iechyd a lles ac mae'n gysylltiedig â risg uwch o iselder a marwolaethau cynnar (Ymgyrch i Ddiweddu Unigrwydd, 2021).

Mae mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol wedi'i nodi fel blaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2020a) ac mae'n un o'r ffyrdd y mae Cymru yn mesur cynnydd tuag at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yr allwedd i fynd i'r afael ag unigrwydd yw deall pwy yng Nghymru sy'n unig a sut mae unigrwydd yn effeithio ar wahanol grwpiau.

Dyma'r rhan olaf o gyfres o fewnwelediadau ar unigrwydd yng Nghymru yn seiliedig ar ddadansoddiad o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Lluniwyd y gyfres i roi gwell dealltwriaeth i lunwyr polisi a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru o bwy sy'n unig fel y gellir cynllunio a darparu cyllid ac ymyriadau i fynd i'r afael ag unigrwydd yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Mae pryder cyffredinol bod unigrwydd wedi cynyddu yn ystod y pandemig, neu y gallai grwpiau penodol fod wedi bod yn teimlo'n fwy unig nag o'r blaen. Mae'r mewnwelediad hwn yn archwilio lefelau unigrwydd rhwng mis Mai a mis Medi 2020, gan ddefnyddio fersiwn ffôn misol Arolwg Cenedlaethol Cymru. Er na ellir eu cymharu'n uniongyrchol, mae'r canfyddiadau hyn yn ategu ein dadansoddiad pwrpasol o ddata o dair ton o'r arolwg blynyddol llawn yn y mewnwelediadau eraill yn y gyfres (gweler isod). Mae rhagor o fanylion am y fethodoleg i'w gweld yn yr Atodiad.

## Crynodeb

Yn ystod mis Mai-Medi 2020 yn ystod pandemig y Coronafeirws:

- Roedd 11% o boblogaeth Cymru yn unig, sef yn is na'r hyn a adroddwyd mewn arolygon blynyddol.
- Roedd gwahaniaethau rhwng y rhywiau o ran unigrwydd, gyda menywod yn fwy unig ym mis Mai, Mehefin a Gorffennaf (2020), a dynion yn fwy unig ym mis Awst a mis Medi (2020).
- Roedd y rhai â salwch neu anabledd tymor hir, ar gyfartaledd, dros ddwywaith yn fwy unig na'r rhai heb salwch neu anabledd tymor hir. Roedd lefelau unigrwydd hefyd yn fwy sefydlog i'r rhai heb salwch neu anabledd tymor hir .
- Roedd y rhai a oedd yn wynebu amddifadedd materol, ar gyfartaledd, dros ddwywaith yn fwy unig na'r rhai nad oeddent yn wynebu amddifadedd materol.
- Roedd y rhai a oedd yn byw mewn ardaloedd trefol yn fwy unig na'r rhai mewn ardaloedd gwledig.

Mae'r canfyddiadau hyn yn gyffredinol gyson ag ymchwil a wnaed mewn rhannau eraill o'r DU yn ystod y pandemig (Bu et al., 2020) ac, er bod lefelau unigrwydd ychydig yn is na'r lefelau cyn

y pandemig, mae'r gwahaniaethau o ran grwpiau yn gyson â dadansoddiad blaenorol o arolygon blynyddol Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru 2018, 2020b) ac â'r mewnwelediadau data eraill yn y gyfres hon (gweler isod).

## Darllenwch y mewnwelediadau data eraill yn y gyfres hon

Goldstone, R., Hodges, H., Durrant, H., a Taylor-Collins, E. (2021). **Pwy sy'n unig yng Nghymru?** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Hodges, H., Goldstone, R., Durrant, H., a Taylor-Collins, E. (2021). **Oedran ac unigrwydd yng Nghymru**. Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.


Hodges, H., Goldstone, R., Durrant, H., a Taylor-Collins, E. (2021). **Iechyd cyffredinol ac unigrwydd yng Nghymru**. Caedydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Hodges, H., Goldstone, R., Durrant, H., a Taylor-Collins, E. (2021). **Mewnwelediadau data unigrwydd: Atodiad methodolegol.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

## Canfyddiadau

**Cyn y pandemig, roedd un o bob chwech o bobl yng Nghymru yn unig. Gostyngodd hyn yn ystod y pandemig, gydag un o bob naw yn teimlo'n unig**[1] – ffigur a oedd yn weddol gyson drwy gydol mis Mai-Medi 2020. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymchwil ledled y DU sydd hefyd yn dangos lefelau cymharol sefydlog o unigrwydd yn ystod y pandemig (UCL, 2021). Fodd bynnag, amrywiodd cyfran y bobl a oedd yn teimlo 'weithiau yn unig' yng Nghymru yn sylweddol drwy gydol y cyfnod hwn, yn amrywio o 65-75%.

*Ffigur 1: Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn unig, weithiau yn unig, a ddim yn unig.*




*Ffynhonnell: Dangosydd Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru: Arolwg Misol, Llywodraeth Cymru (2021c).*

[1] Fodd bynnag, mae'n bosibl bod y dull casglu data a ddefnyddiwyd yn yr arolygon misol wedi dylanwadu ar yr ymatebion a roddwyd. Gweler y ddolen ganlynol am drafodaeth bellach: https://llyw.cymru/unigrwydd-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2019-i-fawrth-2020-html.

**Canfuwyd gwahanol lefelau o unigrwydd yn ôl oedran, rhywedd, salwch ac anabledd, amddifadedd, ac ymatebwyr trefol/gwledig.**




## Oedran ac unigrwydd

**Roedd grwpiau oedran iau (16-64 oed) yn fwy unig na grwpiau oedran hŷn (65+).** Roedd y rhai 16-44 oed yn fwyaf unig ym mis Mehefin (15%) ac yn llai unig ym mis Mai a mis Gorffennaf (11%). Roedd y rhai 45-64 oed yn fwyaf unig ym mis Gorffennaf (13%) ac yn lleiaf unig ym mis Mehefin (10%). I'r rhai 65+, arhosodd unigrwydd rhwng 8-10% rhwng mis Mai a mis Awst, ac roedd ar ei uchaf ym mis Medi (12%).

Er bod hyn yn awgrymu bod cysylltiad negyddol rhwng oedran ac unigrwydd, mae hyn yn debygol o guddio gwahaniaethau yn y grŵp oedran 16-44, gyda phobl iau, yn gyffredinol, yn fwy unig na phobl hŷn yn y grŵp oedran hwn (Hodges et al., 2021a).

*Ffigur 2: Lefelau unigrwydd yn ôl grŵp oedran*





Ffynhonnell: Dangosydd Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru: Arolwg Misol, Llywodraeth Cymru (2021c). Dangosir cyfyngau hyder 95% gan ddefnyddio bariau gwall.



## Rhywedd ac unigrwydd

**Yn ystod mis Mai, Mehefin, a Gorffennaf, roedd menywod yn fwy unig na dynion.** Roedd menywod yn fwyaf unig ym mis Gorffennaf (14%). Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â thystiolaeth bresennol sy'n canfod bod menywod mewn mwy o berygl o unigrwydd cyn ac yn ystod y pandemig (Bu et al., 2020). Roedd dynion yn lleiaf unig ym mis Gorffennaf (8%).

*Ffigur 3: Lefelau unigrwydd yn ôl rhywedd*





Ffynhonnell: Dangosydd Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru: Arolwg Misol, Llywodraeth Cymru (2021c). Dangosir cyfyngau hyder 95% gan ddefnyddio bariau gwall.

**Fodd bynnag, ym mis Awst a mis Medi, roedd dynion yn fwy unig na menywod, ac yn fwyaf unig ym mis Medi (14%).** Mae hyn yn awgrymu bod y berthynas rhwng rhywedd a lefelau unigrwydd cyffredinol yn ystod y pandemig yn gymhleth, gyda gwahanol grwpiau'n teimlo'n fwy unig ar wahanol gyfnodau. Mae'n anodd nodi'r rhesymau dros y gwahaniaethau hyn, er ei bod yn bosibl eu bod yn adlewyrchu gwahanol oblygiadau llacio'r cyfyngiadau rhwng mis Mai-Medi ar gyfer gwahanol grwpiau.

## Bod â salwch, anabledd neu wendid tymor hir ac unigrwydd

Roedd gwahaniaethau sylweddol mewn unigrwydd rhwng y rhai â salwch neu anabledd tymor hir a hebddynt (Ffigur 4). Roedd lefelau unigrwydd ar gyfer y rhai â salwch, anabledd neu wendid tymor hir yn 15% ym mis Mai a mis Gorffennaf, ond cododd i 20% ym mis Mehefin. Mae'n bosibl bod y lefelau unigrwydd uwch hyn wedi'u hysgogi gan gyfyngiadau anghyfartal a gofynion gwarchod yn ystod y cyfnod hwn (gweler Ffigur 1). O gymharu â hyn, roedd 7 i 8% o'r rhai heb salwch, anabledd neu wendid hirsefydlog yn unig drwy gydol y cyfnod, gan godi i 10% ym mis Medi. Mae hyn yn dangos bod **lefelau unigrwydd yn is ac yn fwy sefydlog i'r rhai heb salwch, anabledd neu wendid hirsefydlog.**

*Ffigur 4: Lefelau unigrwydd yn ôl p'un a oes gan yr ymatebydd salwch, anabledd neu wendid tymor hir*





Ffynhonnell: Dangosydd Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru: Arolwg Misol, Llywodraeth Cymru (2021c). Dangosir cyfyngau hyder 95% gan ddefnyddio bariau gwall.

## Amddifadedd materol ac unigrwydd

Roedd amddifadedd hefyd yn gysylltiedig ag unigrwydd. **Roedd lefelau unigrwydd yn uwch ymhlith a rhai sy'n byw mewn amddifadedd materol**[2] **o gymharu â'r rhai nad ydynt yn byw mewn amddifadedd materion, yn enwedig ym mis Gorffennaf** (26% a 9%, yn y drefn honno). Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson ag ymchwil arall a gynhaliwyd ar unigrwydd yn ystod y pandemig, sy'n dangos bod pobl ag incwm is mewn mwy o berygl, ac yn parhau i fod mewn mwy o berygl, o unigrwydd (Bu et al, 2021).

*Ffigur 5: Lefelau unigrwydd yn ôl p'un a yw'r aelwyd mewn amddifadedd materol*





Ffynhonnell: Dangosydd Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru: Arolwg Misol, Llywodraeth Cymru (2021c). Dangosir cyfyngau hyder 95% gan ddefnyddio bariau gwall.

[2] Mewn cyferbyniad ag amddifadedd ar sail ardal a ystyriwyd yn y mewnwelediadau eraill yn y gyfres hon, mae amddifadedd materol yn ymwneud â'r amgylchiadau yn yr aelwyd. Mae'r mesur a ddefnyddiwyd wedi'i lunio i gipio canlyniadau tlodi tymor hir ar aelwydydd, yn hytrach na straen ariannol tymor byr (Llywodraeth Cymru, 2018).

## Preswylfa drefol neu wledig ac unigrwydd

Roedd lefelau unigrwydd yn amrywio rhwng ardaloedd trefol a gwledig hefyd. Heblaw ym mis Medi, mae data'n dangos bod **y rhai sy'n byw yng Nghymru drefol yn fwy unig na'r rhai yng Nghymru wledig.** Ym mis Mehefin, roedd 14% o'r rhai yng Nghymru drefol yn unig, o gymharu â 7% yng Nghymru wledig. Mae hyn yn cynrychioli'r gwahaniaeth mwyaf mewn unigrwydd yn ôl ardal a welwyd mewn unrhyw fis. Mewn cyferbyniad, roedd y bwlch rhwng y cyfrannau priodol a oedd yn unig rhwng 1 a 4 pwynt canran ym mhob un o'r misoedd eraill.

*Ffigur 6: Lefelau unigrwydd yn ôl preswylfa drefol a gwledig*




Ffynhonnell: Dangosydd Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru: Arolwg Misol, Llywodraeth Cymru (2021c). Dangosir cyfyngau hyder 95% gan ddefnyddio bariau gwall.

## Myfyrdodau

Mae'r mewnwelediad data hwn wedi ymchwilio i lefelau unigrwydd yn ystod pandemig y Coronafeirws rhwng mis Mai a mis Medi 2020. Yn gyson ag ymchwil arall yn y DU, roedd lefelau unigrwydd yn is yn ystod y pandemig nag o'r blaen. Gall hyn fod oherwydd newidiadau yn y dulliau casglu data. Fodd bynnag, gall hefyd fod oherwydd bod y sylw cynyddol a roddwyd i feithrin cysylltiadau cymdeithasol yng Nghymru (a thu hwnt) yn ystod y pandemig, fel drwy wirfoddoli (gweler Boelman, 2021, Havers et al., 2021, a Taylor-Collins et al., 2021), yn golygu bod pobl yn teimlo'n llai unig na'r arfer.

Serch hynny, parhaodd gwahaniaethau yn ôl nodweddion demograffig-gymdeithasol, ac roedd lefelau unigrwydd yn uwch ymhlith y rhai sy'n profi anghydraddoldeb, yn enwedig y rhai mewn amddifadedd materol a'r rhai â salwch, anabledd neu wendid tymor hir. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r cyfyngiadau amrywiol a gyflwynwyd neu a laciwyd ar wahanol adegau (gweler Ffigur 1), a goblygiadau gofynion gwarchod neu bolisïau fel y cynllun ffyrlo. Ond gall fod yn wir hefyd nad yw'r gwahaniaethau tymor hwy a nodwyd gennym mewn mannau eraill (Goldstone et al., 2021; Hodges et al 2021a, 2021b) mewn lefelau unigrwydd wedi lleihau yn ystod y pandemig. Bydd cefnogi'r grwpiau hyn wrth i'r pandemig leddfu yn arbennig o bwysig i adferiad Cymru.

**Awduron:** Dr Helen Hodges, Ross Goldstone, Dr Hannah Durrant, Emma Taylor Collins

## Ffynonellau


Boelman, V. (2021). **Gwirfoddoli a llesiant yn ystod y pandemig: Rhan II – Adolygiad cyflym o dystiolaeth.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Adalwyd o https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2021/06/Gwirfoddoli-a-llesiant-yn-ystod-y-pandemig.-Rhan-2-Adolygiad-cyflym-o-dystiolaeth.pdf

Bu, F., Steptoe, A. & Fancourt, D. (2020). **Who is lonely in lockdown? Cross-cohort analyses of predictors of loneliness before and during the COVID-19 pandemic**. Public Health, 186: 31-34.

Campaign to End Loneliness. (2021). **The facts on loneliness**. Adalwyd o https://www.campaigntoendloneliness.org/the-facts-on-loneliness/

De Jong Giervald, J., a Van Tilburg, T. (2010). **The De Jong Gierveld short scales for emotional and social loneliness: tested on data from 7 countries in the UN generations and gender surveys**. European Journal of Ageing. 7(2): 121-130. DOI 10.1007/s10433-010-0144-6

Havers, R., Durrant, H., Bennett, L. (2021). **Rôl cymunedau a defnyddio technoleg i liniaru unigrwydd yn ystod pandemig y Coronafeirws**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Adalwyd o https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2021/05/R%C3%B4l-cymunedau-a-defnyddio-technoleg-i-liniaru-unigrwydd-yn-ystod-pandemig-y-Coronafeirws.pdf

Goldstone, R., Hodges, H., Durrant, H., a Taylor-Collins, E. (2021). **Pwy sy'n unig yng Nghymru?** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Hodges, H., Goldstone, R., Durrant, H., a Taylor-Collins, E. (2021a). **Oedran ac unigrwydd yng Nghymru.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Hodges, H., Goldstone, R., Durrant, H., a Taylor-Collins, E. (2021b). **Iechyd cyffredinol ac unigrwydd yng Nghymru.** Caedydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Hodges, H., Goldstone, R., Durrant, H., a Taylor-Collins, E. (2021c). **Mewnwelediadau data unigrwydd: Atodiad methodolegol**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Llywodraeth Cymru (2020). **Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-2017**. [casgliad data]. Gwasanaeth Data'r Deyrnas Unedig. SN: 8301. Adalwyd o http://doi.org/10.5255/UKDA-SN-8301-1

Taylor-Collins, E., Durrant, H., Nicholl, A., Rodrigues, C. (2021). **Gwirfoddoli a llesiant yn ystod y pandemig: Rhan I – Dysgu o ymarfer**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Adalwyd o https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2021/06/Gwirfoddoli-a-llesiant-yn-ystod-y-pandemig.-Rhan-1-Dysgu-o-ymarfer.pdf

UCL. (2021). **Covid-19 Social Study: Results**. Adalwyd o https://www.covidsocialstudy.org/results

Llywodraeth Cymru (2018). **Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-17 – Unigrwydd**. Adalwyd o: https://llyw.cymru/unigrwydd-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2016-i-mawrth-2017.

Llywodraeth Cymru (2020a). **Cysylltu Cymunedau: Strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol a chreu cysylltiadau cymdeithasol cryfach**. Adalwyd o https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/cysylltu-cymunedau-strategaeth.pdf

Llywodraeth Cymru (2020b). **Unigrwydd (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2019 i Fawrth 2020**. Llywodraeth Cymru. Adalwyd o: https://llyw.cymru/unigrwydd-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2019-i-mawrth-2020

Llywodraeth Cymru, Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020a). **Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2017-2018**. [casgliad data]. 2[il] Argraffiad. Gwasanaeth Data'r Deyrnas Unedig. SN: 8390. Adalwyd o http://doi.org/10.5255/UKDA-SN-8390-2

Llywodraeth Cymru, Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020b). **Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2019-2020**. [casgliad data]. Gwasanaeth Data'r Deyrnas Unedig. SN: 8718. Adalwyd o http://doi.org/10.5255/UKDA-SN-8718-1

Llywodraeth Cymru (2021a). **Adroddiad gwaith maes, arolwg misol a chwarterol 2020.** Adalwyd o https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2021-05/national-survey-for-wales-monthlyquarterly-survey-fieldwork-report.pdf

Llywodraeth Cymru (2021b). **Arolwg Cenedlaethol Cymru: holiaduron.** Adalwyd o https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-holiaduron

Llywodraeth Cymru. (2021c). **Dangosydd Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru: Arolwg Misol**. Adalwyd o https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau

Llywodraeth Cymru (2021d). **Adroddiad ansawdd, arolwg misol a chwarterol 2020**. Adalwyd o: https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-adroddiad-ansawdd-arolwg-misol-chwarterol-ebrill-i-ragfyr-2020-html

## Atodiad: Methodoleg

Arolwg Cenedlaethol Cymru: Mae cyfres arolygon misol 2020 yn defnyddio hapsampl o boblogaeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021d). Dewiswyd y sampl ar gyfer yr arolygon misol o blith cyfranogwyr blaenorol arolwg wyneb-yn-wyneb Arolwg Cenedlaethol Cymru, a gytunodd i gymryd rhan mewn ymchwil bellach. Roedd pob arolwg misol yn cynnwys tua 1,000 o ymatebwyr, ac eithrio mis Mai, pan gymerodd dros 3,000 o ymatebwyr ran yn yr arolwg (Llywodraeth Cymru, 2021a). Roedd yr arolwg yn para tuag 20 munud ac yn cynnwys ystod o bynciau, nad yw rhai ohonynt wedi'u cynnwys ym mhob un o'r arolygon misol (Llywodraeth Cymru, 2021b).

Caiff graddfa unigrwydd De Jong Gierveld ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru i asesu lefelau unigrwydd (De Jong Gierveld & Van Tilburg, 2010).[3]

Oherwydd niferoedd isel, nid yw'n bosibl cael dadansoddiad o'r graddau yr oedd rhywun yn teimlo eu bod yn unig na mathau o unigrwydd gan ddefnyddio'r Dangosydd Canlyniadau (Llywodraeth Cymru, 2021c). Mae cyfyngiadau hefyd o ran yr ystod o nodweddion demograffig-gymdeithasol y gellir eu hystyried. Yn achos amddifadedd materol a bod â salwch, anabledd neu wendid tymor hir, defnyddiwyd statws yr ymatebwyr o'r arolwg blynyddol llawn.  Felly, mae'n bosibl y gallai'r unigolyn fod wedi symud i mewn/allan o amddifadedd materol neu fod wedi colli/caffael salwch tymor hir yn y cyfnod rhwng y cwestiynau.

Mae cymharu'r data misol a gasglwyd yn ystod 2020 â data blaenorol a gasglwyd, fel data arolwg blwyddyn lawn 2019-20, yn bosibl ond yn broblemus. Mae hyn oherwydd bod y cwestiynau unigrwydd

[3] Mae mwy o fanylion ar y raddfa hon i'w gweld yn Hodges et al., 2021d.

wedi'u hunanlenwi ar gyfrifiadur ar gyfer yr arolwg blwyddyn lawn. Mewn cyferbyniad, cynhaliwyd yr arolwg misol drwy gyfweliadau dros y ffôn. Mae'n bosibl bod ymatebwyr yn teimlo'n llai parod i gyfaddef eu bod yn unig wrth gael eu cyfweld dros y ffôn nag wrth ateb ar eu pennau eu hunain ar gyfrifiadur.



## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r Ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith Beth Sy'n Gweithio y DU.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:


**Hannah Durrant**

Hannah.durrant@wcpp.org.uk



**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG

www.wcpp.org.uk/cy | 029 2087 5345

info@wcpp.org.uk | @WCfPP



Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

Economic and Social Research Council

Llywodraeth Cymru / Welsh Government